Rhyfel y Plant

Yr Ail Ryfel Byd



LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Cyflwyniad



Plant yn casglu coed tân yn Nhrefaldwyn, Rhagfyr 21, 1940.

Daeth yr Ail Ryfel Byd â llawer o newidiadau i fywydau plant yng Nghymru. Yn ogystal â'r gofid a achoswyd gan symud faciwîs o drefi a dinasoedd, bu'n rhaid i blant Cymru eu hunain ddod i arfer â ffordd newydd o fyw yn yr ysgol a'r cartref. Daeth diogelwch yn rhan o fywyd pob dydd, a gwelwyd plant yn chwarae eu rhan yn ymdrech y rhyfel.

Mygydau Nwy



Plant yn ymarfer gwisgo mygydau nwy, 1939. Roedd y llywodraeth yn annog pobl i ymarfer eu gwisgo yn barod am ymosodiad gan y gelyn.

Roedd hi'n bwysig iawn i blant ddysgu am ddiogelwch. O 1935 ymlaen dechreuodd y llywodraeth greu mygydau nwy rhag ofn i'r gelyn ddefnyddio nwy gwenwynig wrth ymosod.

Crëwyd mygydau i bob plentyn, ac un lliwgar i blant ifanc dan 5 oed oedd yn cael ei alw'n fwgwd 'Mickey Mouse'. Roedd hyd yn oed mwgwd nwy ar gyfer babis!

Mwgwd Nwy ar Gyfer Babi

Yn ffodus, doedd dim angen defnyddio unrhyw fwgwd nwy gan na fu ymosodiad nwy ar Brydain.



Mwgwd nwy wedi ei lunio ar gyfer babanod. Rhoddwyd hwn i bawb gyda baban bach ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd. Cai'r baban ei roi y tu mewn a byddai'n rhaid pwmpio ocsigen drwy'r pwmp llaw sydd ar ochr y mwgwd.


Galeri

Roedd gofyn i'r plant gario'u mygydau nwy gyda nhw drwy'r amser. Roedd yn rhaid ymarfer eu defnyddio'n aml yn yr ysgol er mwyn sicrhau bod modd eu gwisgo'n gyflym os oedd ymosodiad.



Mwgwd ‘Mickey Mouse’ yn arbennig ar gyfer plant rhwng 18 mis a 4 oed. (© Amgueddfa Heddlu De Cymru)

Bywyd ysgol



Byddai plant hefyd yn ymarfer beth i'w wneud a ble i fynd yn ystod cyrchoedd awyr (air raids).



Plant yng Ngresffordd ger Wrecsam yn gadael lloches yn y cae chwarae ar ôl ymarferiad cyrch awyr yn 1939.

Roedd gan lawer o ysgolion eu llochesau eu hunain. Pan ganai'r seiren byddai disgwyl i'r plant ruthro i'r lloches, ac os nad oedd amser i gyrraedd y lloches i fynd i guddio o dan y bwrdd yn y dosbarth.

Bywyd ysgol



Bechgyn yn helpu'r athro i arddio.

Merched yn ymarfer eu sgiliau coginio.





Merched yn ymarfer eu sgiliau gwnïo.

Cyfraniad y Plant

Roedd disgwyl i bawb gyfrannu at ymdrech y rhyfel. Gallai plant helpu mewn nifer o ffyrdd gwahanol oedd yn amrywio o gasglu metel sgrap i drwsio dillad, helpu i dyfu llysiau neu i ddal gwahaddod (moles).

Yn yr ysgol byddai'r plant yn dysgu sgiliau newydd fel ffordd o gyfrannu'n fwy effeithiol at achos y rhyfel. Yn gyffredinol, roedd gwahaniaeth mawr rhwng y math o waith roedd disgwyl i fechgyn a merched ei wneud, gyda bechgyn yn dysgu sgiliau fel garddio a merched yn dysgu gwnïo a choginio.



Cwis


Sawl bachgen sydd yn helpu'r athro i arddio yn y ffotograff hwn?



- A. 9
- B. 7
- C. 6
- D. 10

Gwaith Ychwanegol

Byddai plant yn aml yn helpu gyda gwaith ar y ffermydd, gan gynnwys rheoli plâu. Roedd hyn yn waith pwysig gan ei fod yn atal bwydydd prin rhag cael eu handwyo.




Bechgyn Ysgol yr Eglwys, y Trallwng yn dysgu sut i ddal gwahaddod, Mawrth 1941.

Gan fod nwyddau o bob math mor brin roedd plant hefyd yn cael eu hannog i ailgylchu nwyddau drwy gasglu papur a metel gwastraff.

Dogni

Bu'n rhaid i blant arfer â bwydlen dipyn mwy cyfyng hefyd. Nid oedd Prydain bellach yn gallu dibynnu ar fwydydd o wledydd eraill. Gan fod bananas yn cael eu mewnforio, doedd plant a gafodd eu geni yn ystod y rhyfel ddim wedi gweld banana tan i'r rhyfel orffen. Roedd bwydydd fel wyau, blawd a siwgr wedi cael eu dogni. Roedd bwyd fel hufen ia ar gyfer adegau arbennig yn unig!

Llyfr Dogni bwyd wythnosol



Pobl ifanc

Erbyn diwedd 1941 daeth yn orfodol i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed ymuno â grwpiau ieuenctid. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod y llywodraeth eisiau i bobl ifanc gyfrannu at ymdrech y rhyfel.

SGOWTIAID (Scouts)



Sgowtiaid y Drenewydd yn casglu papur gwastraff, Tachwedd 4, 1939.

Os oedd angen cymorth gofynnwyd i sgowtiaid helpu i adeiladu llochesau cyrchoedd awyr, a byddai'r plant hŷn yn aml yn cael eu meithrin i ymuno â'r lluoedd arfog. Trefnai'r Llu Awyr (RAF) wersylloedd hyfforddi ar gyfer bechgyn yn ystod y gwyliau ysgol.

GEIDIAU (Guides)



Geidiau a Brownis Llanbrynmair, Mehefin 1, 1940

Gallai merched ddysgu sgiliau gwahanol mewn gweithgareddau gyda Chorfflu Awyr Iau y Merched. Ai'r geidiau hefyd allan i'r wlad i gasglu ffrwythau ar gyfer gwneud jam. Roedd y sgowtiaid a geidiau yn trefnu bod eu haelodau yn casglu papur a metel sgrap i'w hailgylchu.

Urdd Gobaith Cymru

Roedd mudiad Urdd Gobaith Cymru yn boblogaidd yng Nghymru fel mudiad oedd yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau hamdden a chymdeithasol.



Cabanau pren Gwersyll yr Urdd yn Llangrannog, Awst 1940

Er i'r Rhyfel atal nifer o weithgareddau'r Urdd ac i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd gael ei hatal am gyfnod, roedd yr Urdd yn dal yn weithgar a phoblogaidd iawn yn ystod y Rhyfel.

Adloniant

Ychydig iawn o gartrefi oedd â theledu yn y cyfnod hwn ond gwrandawai plant ar raglenni radio oedd yn arbennig ar eu cyfer, a gallai'r plant a oedd yn byw yn y dref fynd i'r sinema.

Roedd teganau'n brin am fod ffatrïoedd yn gorfod canolbwyntio ar wneud ffrwydron ac awyrennau yn lle beiciau a theganau metel. Byddai plant fel arfer yn gwneud eu teganau eu hunain allan o bren, ac yn ailgylchu hen rannau beiciau i wneud rhai newydd.



Gêm derfynol Tarian Bêl-droed Ysgolion Sir Drefaldwyn, Ebril 26, 1941

Galeri

Byddai tyllau bomiau a darnau o awyrennau yn aml yn adloniant i blant, wrth iddyn nhw drefnu cystadlaethau i weld pwy fyddai'n dod o hyd i'r mwyaf o ddarnau o fomiau neu awyrennau. Gallai hyn fod yn beryglus iawn, yn arbennig gyda bomiau oedd heb ffrwydro. Yn gyffredinol roedd plant yn llwyddo i greu eu hadloniant eu hunain yng nghyfnod y rhyfel.



Mae'r ffotograffau sydd yn y llyfr hwn yn rhan o Gasgliad Ffotograffau Geoff Charles, Llyfrgell Genedlaethol Cymru: https://www.llgc.org.uk/geoffcharles